***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 3

# DARPARIAETH BELLACH MEWN CYSYLLTIAD Â THRWYDDEDAU TRINIAETH ARBENNIG

*Yr hawl i gyflwyno sylwadau*

15 (1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw awdurdod lleol yn bwriadu—

(a) rhoi hysbysiad i geisydd o dan adran 65(2) neu 66(6) fod cais wedi ei wrthod (gan gynnwys o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hynny fel y maent yn gymwys mewn cysylltiad â'r cais yn rhinwedd adran 67 neu baragraff 13(1)(b)),

(b) rhoi hysbysiad i ddeiliad trwydded o dan adran 68 fod trwydded wedi ei dirymu (gan gynnwys o dan yr adran honno fel y mae'n gymwys mewn cysylltiad â'r cais yn rhinwedd adran 67 neu baragraff 13(1)(b)), neu

(c) rhoi hysbysiad i unigolyn o dan adran 61(1), sy'n dynodi'r unigolyn hwnnw mewn cysylltiad â triniaeth arbennig.

(2) Yn y paragraff hwn ac ym mharagraffau 16 a 17, cyfeirir at y ceisydd neu ddeiliad y drwydded fel "A".

(3) Rhaid i'r awdurdod roi hysbysiad i A ("hysbysiad rhybuddio") sy'n nodi'r hyn y mae'r awdurdod yn bwriadu ei wneud a phaham.

(4) Rhaid i hysbysiad rhybuddio ddatgan y caiff A, o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, naill ai—

(a) cyflwyno sylwadau ynghylch y cynnig, neu

(b) hysbysu'r awdurdod bod A yn dymuno cyflwyno sylwadau.

(5) Ni chaniateir i'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio fod yn llai na 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â dyddiad yr hysbysiad.

(6) Caiff yr awdurdod gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio—

(a) os yw A, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio, yn hysbysu'r awdurdod nad yw A yn dymuno cyflwyno sylwadau, neu

(b) os yw'r cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio yn dod i ben ac nad yw A wedi cyflwyno sylwadau na hysbysu'r awdurdod bod A yn dymuno gwneud hynny.

(7) Os yw A, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio, yn hysbysu'r awdurdod bod A yn dymuno cyflwyno sylwadau—

(a) rhaid i'r awdurdod ganiatáu cyfnod rhesymol pellach i A i gyflwyno sylwadau, a

(b) caiff yr awdurdod gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio, os yw A yn methu â chyflwyno sylwadau o fewn y cyfnod pellach hwnnw.

(8) Os yw A yn cyflwyno sylwadau (naill ai o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad rhybuddio neu o fewn y cyfnod pellach a ganiateir o dan is-baragraff (7)(a)), rhaid i'r awdurdod ystyried y sylwadau.

(9) Caniateir i'r sylwadau a gyflwynir gan A o dan y paragraff hwn gael eu cyflwyno ar lafar neu fel arall; ac yn achos sylwadau ar lafar, caiff A neu gynrychiolydd A eu cyflwyno.